

❖ JOSEFF

Joseff: tad daearol Iesu Grist; gŵr Mair; a thad Iago, Joseff, Simon, Jwdas a'u chwiorydd, y cyfeirir atynt ond heb eu henwi (Mathew 13:55–56 a Marc 6:3). Mae Joseff yn gymeriad amlwg yn hanes y Testament Newydd, gyda deunaw o gyfeiriadau ato yn efengylau Mathew, Luc ac Ioan. Ac eto, nifer fechan o ddigwyddiadau sy'n cael eu trafod. Beth oedd galwedigaeth Joseff? Fe'ch clywaf yn dweud, 'Saer, wrth gwrs.' Dyna'r gwir, mae'n debyg; ac eto, dim ond un cyfeiriad sydd yn y Testament Newydd at Joseff fel saer: 'Onid mab y saer yw hwn?' (Mathew 13:55). Cyfeirir hefyd at Iesu fel saer (Marc 6:3), ond heb gyfeirio at alwedigaeth ei dad: 'Onid hwn yw'r saer, mab Mair a brawd Iago a Joses a Jwdas a Simon?'

Beth am gymwysterau Joseff i fod yn dad daearol i Iesu? Gallai olrhain ei achau trwy Ddafydd at Abraham. Roedd yn perthyn i lwyth Jwda, y llwyth y disgwylid i'r Meseia hanu ohono (Mathew 1). Felly, roedd Joseff yn perthyn i'r bobl iawn. O ran ei gymwysterau hefyd, fe'i dangosodd ei hun yn anrhydeddus trwy ddewis sefyll gyda Mair, ei ddyweddi, a'i chymryd yn wraig er ei bod yn feichiog. Dewisodd wrando ar Dduw. Roedd ei ymddiriedaeth yn Nuw yn bwysicach iddo na barn y gymdogaeth (Mathew 1:24–25). Ac eto, wrth feddwl am gymwysterau Joseff i fod yn rhiant arbennig, nid yw rhieni yn arfer dirprwyo'r gwaith o ofalu a magu eu plant i unrhyw un. Gymaint mwy felly ein Duw! Nid ar ddamwain y dewisodd Duw Joseff yn dad daearol i'r Iesu. Gwnaeth hynny oherwydd yr hyn oedd Joseff. Felly, cyn llunio'r byd a chyn lledu'r nefoedd wen (diolch, Pedr Fardd!), roedd Duw wedi adnabod Joseff, ac wedi ei ddewis yn fwriadol er mwyn buddsoddi ynddo fel tad daearol i'w Fab. Roedd y dewis hwnnw hefyd yn ddewis y 'Cyngor Bore' rhwng y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân. (Felly hefyd, wrth gwrs, gyda dewis Mair.)

O ran ei berthynas â Iesu Grist, dewisodd Joseff aros hefo Mair a wynebu'r daith i Fethlehem yng nghwmni merch ifanc feichiog. Wedi geni Iesu yno, bu raid gwranddo eto ar Dduw a ffoi i'r Aifft rhag y Brenin Herod (Mathew 2:13). Wedi marw Herod, gwrandawodd Joseff unwaith eto, a dychwelyd adref o'r Aifft (Mathew 2:19–21). Dewis Joseff oedd gwranddo ac ymddiried yn Nuw.

Gwelwn ef hefyd, fel Iddew cydwybodol, yn arwain ei deulu i Jerwsalem adeg y Pasg. Ac yno unwaith y bu'n dyst i'r digwyddiad rhyfeddol hwnnw pan ddysgodd Iesu ddoctoriaid y gyfraith yn y Deml (Luc 2:46). Dyma gyfeiriad amseryddol olaf y Testament Newydd ato.

Yn newisiad Joseff yn dad daearol i Iesu Grist, cafodd yr Eglwys ddarlun o dad Cristnogol a'r hyn y dylai tad felly fod.

W. Bryn Williams